



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

POLISI A PHROTOCOL AR Y DEFNYDD O DELEDU CYLCH CYFYNG (CCTV)

Cyhoeddiad	Tachwedd 2020
Dyddiad Adolygu	Tachwedd 2023
Cychwynnydd	Nick Brazil Dirprwy Bennaeth
Lleoliad y Polisi	1. BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures /Estates
Cymeradwywyd gan:	Grŵp Gwybodaeth, Llywodraethu a Diogelwch – 10 Tachwedd 2020 JNCC – 20 Tachwedd 2020 TRhC – 17 Rhagfyr

1. **Diben y Polisi**

Diben y Polisi hwn yw rheoleiddio'r defnydd o'r system teledu cylch cyfyng (CCTV) a ddefnyddir i fonitro a recordio ardaloedd o safleoedd ac adeiladu'r Coleg at y dibenion canlynol:

- (a) Diogelwch a diogeledd staff, myfyrwyr ac ymwelwyr.
- (b) Diogelu asedau'r Coleg.
- (c) Atal a chanfod troseddau.
- (d) Restio ac erlyn tramgwyddwyr.

Caiff y system CCTV ei rheoli ar bob adeg yn unol â GDPR a'r **Ddeddfwriaeth Diogelu Data**.

2. **Cyd-destun**

Mae gan Goleg Gŵyr Abertawe systemau CCTV yn Nhycloch – y prif safle, y Neuadd Chwaraeon, Broadway, Llwyn y Bryn, Plas Sgeti, Llys Jiwbilí ac ar Gampws Gorseinon.

Bwriad y Polisi a Phrotocol hwn ar y defnydd o ddelweddau a gofnodir ar system CCTV yw darparu canllawiau ar y systemau i reolwyr ynghyd â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau nhw o dan Ddeddf Diogelu Data.

Caiff systemau CCTV yng Ngholeg Gŵyr Abertawe eu rheoli ar bob adeg yn unol â'r **Cod Ymarfer** a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth a Chod Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth o dan Orchymyn Deddf Diogelu Rhyddidau (POFA).

3. **Cwmpas**

Er y bydd y systemau CCTV yn recordio delweddau o bawb sy'n mynd heibio'r camerâu, bwriedir y Polisi a Phrotocol hwn yn benodol i staff y Coleg sy'n gweinyddu'r system ac i'r staff, myfyrwyr a defnyddwyr eraill hynny yn y Coleg a allai ofyn i weld delweddau a recordir a rhoi arweiniad ar sut yr ymdrinnir â chais o'r fath.

4. **Cyfrifoldebau**

Y sawl sydd â chyfrifoldeb yw:

- Y Pennaeth
- Dirprwy Bennaeth
- Cyfarwyddwr Ystadau a TG

5. Protocol

5.1 Pwy fydd yn rheoli'r systemau CCTV?

Rheolir y systemau CCTV gan y Tîm Gwasanaethau Cyfrifiadurol, ac mi fydd y Cyfarwyddwr ystadau a ThG yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfriad o ddydd i ddydd â'r Cod Ymarfer.

5.2 Lleoliad camerâu CCTV

- Lleolir camerâu CCTV lle byddant yn monitro ardaloedd y mae gan gorff cyffredinol y staff, myfyrwyr ac ymwelwyr fynediad iddynt yn unig
- Yn gyffredinol, bydd camerâu yn recordio:
 - Mynedfeydd ac allanfeydd, i gerddwyr ac i gerbydau
 - Rhannau o ffyrdd a meysydd parcio
 - Rhai coridorau mewnol
 - Ardaloedd derbynfeydd
 - Ystafell CSCS, Llys Jiwbilî
- Lleolir y camerâu neu cânt eu cyfyngu i sicrhau na welir, ac ni ellir gweld, ardaloedd domestig preifat (megis gerddi anheddau preifat ar hyd ffin y Coleg).
- Lleolir arwyddion ger y camerâu i sicrhau bod staff, myfyrwyr ac ymwelwyr yn ymwybodol eu bod yn cyrraedd parth CCTV.
- Bydd yr arwyddion yn cynnwys y wybodaeth ganlynol;
 - (a) Diben y cynllun CCTV
 - (b) Hunaniaeth yr unigolyn sy'n gyfrifol am y polisi CCTV
 - (c) Manylion cyswllt ynghylch y cynllun

5.3 Recordio Sain

Nid oes gan systemau a osodwyd yng Ngholeg Gŵyr Abertawe gyfleusterau recordio sain.

5.4 Ansawdd y delweddau

Caiff y delweddau a recordiwyd yn ddigidol eu cad war yriant caled gyda'r cyfleusterau i'w drosglwyddo i DVD.

I sicrhau bod y delweddau mor glir â phosib er mwyn iddynt fod mor effeithiol â phosib at y diben y'u bwriadwyd, caiff y safonau canlynol eu mabwysiadu:

- Fe'u gosodir gan gwmni gosod cymwys
- Bydd ymweliadau cynnal a chadw yn ôl yr angen
- Caiff lefel y goleuadau allanol ei hasesu
- Caiff y camerâu eu hamddiffyn rhag fandaliaeth lle bo'n angenrheidiol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn weithredol

5.5 Gwasanaethau/Galwadau Atgyweirio

Pan fydd camera wedi'i ddifrodi neu nad yw'n gweithio'n iawn am ba reswm bynnag, cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Ystadau a TG fydd:

- Gwneud trefniadau i sicrhau y caiff y camera ei atgyweirio
- Sicrhau bod y camera'n weithredol cyn gynted ag sy'n ymarferol
- Monitro ansawdd y gwaith cynhaliaeth

5.6 Prosesi'r delweddau a recordiwyd

Ni fydd delweddau nad oes eu hangen at ddibenion y cynllun eu cadw'n fwy nag **28 niwrnod**.

Mae system Coleg Gŵyr Abertawe'n dileu delweddau'n awtomatig wedi **28 niwrnod**.

Yr eithriad i'r weithdrefn hon yw cyfleuster camera CCTV yn yr ystafell CSCS ddynodedig yn Llys Jiwbilî, Fforestfach y mae Rheolwr Sgiliau ar gyfer Busnes a Diwydiant yn ei goruchwyllo. Mae'r system ar wahân hon yn cadw delweddau am 30 diwrnod fel y'i pennir gan y Corff Arholi.

6.0 Cyfyngir delweddau a recordiwyd i:

- Y Pennaeth a Thim Rheoli'r Coleg (CMT)
- Cyfarwyddwr Ystadau a TG
- Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifiadurol
- Rheolwr Sgiliau ar gyfer Busnes a Diwydiant (y cyfleuster CSCS yn unig)

Neu aelod dynodedig o staff un o'r uchod.

6.1 Atgoffir pob aelod o staff y rhoddir mynediad iddynt i'r delweddau o'r angen i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol.

6.2 Gwaherddir gwerthu unrhyw ddelweddau neu ddiwyddiadau a recordiwyd.

6.3 Caiff unrhyw ddelweddau a dynnir o'r system at ddibenion darparu tystiolaeth eu cadw mewn storfa ddiogel yn swyddfa'r Cyfarwyddwr Ystadau a TG.

Caiff tynnu'r delweddau ei ddogfennu gan y gweithredwr, gan gofnodi:

- Dyddiad eu tynnu oddi ar y system
- Y rheswm dros dynnu'r delweddau
- Unrhyw rif trosedd y mae'r delweddau'n berthnasol iddo
- Lleoliad y delweddau, e.e. os rhoddwyd y delweddau i swyddog yr Heddlu, cofnodir ei enw, ei rif ffôn a'i orsaf Heddlu
- Llofnod swyddog yr Heddlu

Caiff mynediad i'r delweddau a recordiwyd sy'n angenrheidiol i gadarnhau gweithrediad parhaus y system o ddydd i ddydd ei gyfyngu i'r Cyfarwyddwr Ystadau a TG.

Cyfarwyddwr Ystadau a TG a Swyddog Diogelu Data'r Coleg yn penderfynu a ddylid caniatáu mynediad i drydydd parti i'r delweddau a recordiwyd.

Cynhelir unrhyw wyllo delweddau a recordiwyd mewn ardal gyfyngedig megis y Gwasanaethau Cyfrifiadurol neu swyddfa'r Rheolwr Ystadau. Ni chaniateir mynediad i weithwyr, myfyrwyr neu ymwelwyr eraill tra bydd y delweddau'n cael eu wyllo.

Ni ellir defnyddio monitorau y gellir eu gweld gan aelodau o staff, myfyrwyr, ymwelwyr ac aelodau'r cyhoedd i recordio delweddau, e.e. mewn derbynfydd. Bydd y monitorau hyn yn dangos delweddau 'byw' yn unig.

6.4 Mynediad i ddelweddau a recordiwyd gan yr unigolyn (gwrthrych y data).

Mae gan unigolion hawl i'r wybodaeth a recordir amdanynt.

Gall gwrthrychau data ofyn am gael gweld delweddau a gofnodir. Ar gyfer ddibenion gweinyddol, gofynnir iddynt lenwi ffurflen gais am fynediad sy'n nodi:

- (a) Y wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn dod o hyd i'r delweddau y gofynnir amdanynt (dyddiad, amser, lleoliad);
- (b) enw'r unigolyn sy'n gwneud y cais;
- (c) P'un a fyddai'r unigolyn sy'n gwneud y cais yn fodlon ar weld y delweddau'n unig

Pan dderbynnir cais llafar bydd y person sy'n derbyn y cais yn cofnodi'r manylion ar y ffurflen berthnasol.

Ni fydd tal yn cael ei godi a bydd y data'n cael ei ddarparu o fewn un mis i'r cais.

Bydd y Cyfarwyddwr Ystadau a TG yn lleoli'r delweddau a gofynnwyd amdanynt gan benderfynu a fydd datgelu'r delweddau'n golygu datgelu delweddau y gellir eu defnyddio i nodi trydydd parti.

Os yw'r delweddau yn cynnwys datgeli trydydd parti, yna mae angen cytundeb y trydydd parti hwnnw cyn y gelli weld y delweddau, **oni bai** (ar ôl trafod yn drylwyr) bod anghenion gwrthrych y data yn gorbwyso rhai'r unigolion eraill. Gellir hefyd ddarparu'r delweddau i'r trydydd parti wedi'i guddio/golygu.

Os yw'r Coleg yn penderfynu, ar ôl adolygiad DPO, eu bod am wrthod cais unigolyn am fynediad, bydd y wybodaeth ganlynol yn cael ei nodi.

- (a) Enw'r unigolyn sy'n gwneud y cais;
- (b) dyddiad y cais;
- (c) y rheswm dros wrthod darparu'r delweddau;
- (d) enw a llofnod y rheolwr sy'n gwneud y penderfyniad;
- (e) y rheswm dros y penderfyniad;

(f) enw'r uwch reolwr y gellir anfon apêl ato yn erbyn y penderfyniad.

Rhaid ymateb yn ysgrifenedig i gais gwrthrych a, wybodaeth o fewn mis o'r cais.

6.5 Mynediad i ddelweddau a'u datgelu i'r trydydd parti

Cyfyngir mynediad staff i ddelweddau a recordiwyd i'r rheiny sydd ei angen a chofnodir yr holl fynediad i ddelweddau.

Caniateir mynediad i **ddelweddau a recordiwyd** a'u datgelu i drydydd parti dan amgylchiadau penodol a phenodedig yn unig. Mae'r trydydd partion hyn yn cynnwys:

- (a) aelodau CMT;
- (b) asiantaethau gorfodi'r gyfraith;
- (c) asiantaethau erlyn;
- (d) cynrychiolwyr cyfreithiol;

7.0 Adolygiad

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu bob 3 mlynedd neu'n gynharach os oes newidiadau deddfwriaethol.

8.0 Y gofrestr Diogelu Data

Ceir copïau o gofnod y Coleg ar y Gofrestr Diogelu Data ar gais, a gellir hefyd ei weld ar-lein yn www.dpr.gov.uk. Rhif y gofrestr yw Z2511175 a rhestrir y cofnod dan Goleg Gŵyr Abertawe.

9.0 Dogfennau Perthnasol

Mae'r ddogfen "In the Picture: A Data Protection Code of Practice for Surveillance Cameras and Personal Information" ar gael o'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

10.0 Gwneud apêl i'r Comisiynydd Gywbodaeth

Os yw unigolyn yn anhapus gyda'r ffordd yr ymdriniwyd â'i gais, gallant gyfeirio'r mater at y Comisiynydd Gwybodaeth ar y wefan at www.ico.org.uk.

11.0 Yr Iaith Gymraeg

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

CCTV – DEFNYDDIO A DATGELU DELWEDDAU

Mae pryderon cyhoeddus a dilys ynghylch y defnydd o CCTV a lluniwyd nifer o'r canllawiau penodol i fodloni'r gymuned bod y defnydd o gamerâu yn destun goruchwyliaeth ac archwiliad digonol. Mae'n hollbwysig y cynhelir hyder y cyhoedd drwy barchu preifatrwydd unigol yn llawn.

Rhaid i bobl aelod o staff sydd â'r awdurdod i ddefnyddio delweddau CCTV yng Ngholeg Gŵyr Abertawe ddarllen y protocol hwn a chadarnhau eu bod yn deall ac yn cytuno i gydymffurfio â'r protocol.

1. Staff awdurdodedig yn unig a all weld delweddau CCTV a recordiwyd.
2. Bydd yr holl staff sydd â'r awdurdod i weld delweddau CCTV a recordiwyd yn ymddwyn gyda'r cywirdeb mwyaf ar bob adeg.
3. Rhaid ymdrin â'r holl ddelweddau a welir gan staff awdurdodedig yn gyfrinachol.
4. Dylai pob aelod o staff awdurdodedig sicrhau na all aelodau o staff anawdurdodedig, myfyrwyr nac ymwelwyr weld delweddau wrth wyllo delweddau CCTV.
5. Cyfrifoldeb pob aelod o staff awdurdodedig yw sicrhau na chaiff delweddau CCTV eu gadael ar unrhyw sgrîn heb fod staff awdurdodedig yn gyfrifol amdanynt. Dylai'r aelod o staff awdurdodedig allgofnodi o'r rhaglen wrth adael y sgrîn.
6. Bydd pob adeg o wyllo'r delweddau gydymffurfio â dibenion ac amcanion allweddol y system CCTV a bydd yn cydymffurfio â'r protocol hwn.
7. Dylai pob aelod o staff sy'n gwyllo delweddau CCTV fod yn ymwybodol o ymarfer rhagfarnau, a allai arwain at gwynion bod y system yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwahanol i'r hyn a fwriadwyd. Efallai y bydd angen i'r gwyliwr gyfiawnhau ei ddiddordeb mewn unrhyw unigolyn, grŵp, unigolion neu eiddo penodol ar unrhyw adeg.

8. Mae pob aelod o staff awdurdodedig sy'n gwylio delweddau CCTV yn gyfrifol am bob adeg o wyllo'r delweddau, y mae'n rhaid ei gyfiawnhau.
9. Ymdrinnir ag unrhyw doriad o'r protocol CCTV yn unol â rheoliadau disgyblu cyfredol a dylai pob unigolyn sylweddoli y gall toriad o'r fath gael ei ystyried yn gamymddygiad difrifol a allai arwain at ddiswyddo.
10. Bydd unrhyw achos o dorri Deddf Diogelu Data 1998 yn cael ei drin yn unol â'r ddeddfwriaeth honno. Rhaid bod gweithwyr awdurdodedig sy'n gwylio delweddau CCTV yn ymwybodol o'u hatebolrwydd o dan y Ddeddf hon.

Coleg Gŵyr Abertawe – Mynediad at Ddata - CCTV

Cwblheir y ffurflen hon gan unigolyn sy'n dymuno cael mynediad at ddata personol a gedwir amdano ar system CCTV Coleg Gŵyr Abertawe.

I hwyluso'r broses i'r Coleg bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth am leoliad, dyddiad ac amser y delweddau y hoffech eu gweld.

Bydd y Coleg yn gwneud ei orau i ddarparu'r data o fewn mis i'ch cais a byddwn yn cysylltu â chi os na fydd modd cwrdd â'r gofynion yma. Fel arfer, ni fydd gofyn i chi dalu am gais mynediad at ddata.

Rhaid i staff a myfyrwyr cyfredol ddarparu cerdyn adnabod. Gofynnir i bobl eraill sy'n gwneud cais ddarparu dwy eitem o brawf adnabod, gan gynnwys un **llun diweddar sydd wedi'i wirio** e.e. pasbort neu drwydded yrru, rhaid darparu tystysgrif geni.

CYFENW	ENW(au) CYNTAF	Dyddiad Geni	RHYW
CYFEIRIAD PRESENNOL:	CYFEIRIAD: (yn ystod eich amser yng Ngholeg Gŵyr Abertawe)		
CAIS: (nodwch)			
STAFF <input type="checkbox"/>	MYFYRIWR <input type="checkbox"/>	ARALL <input type="checkbox"/>	
DYDDIAD	Amser Cychwynnol	Amser Gorffen	Lleoliad y Camera
DISGRIFIAD O'R DATA SYDD EI ANGEN:			
<p>Amgaeaf brawf sy'n dynodi pwy ydw i.</p> <p><input type="checkbox"/> Llofnod..... Dyddiad.....</p> <p>Dychwelwch y ffurflen hon at Swyddog Diogelu Data, Clerc y Llywodraethwyr, Coleg Gŵyr Abertawe, Heol Tycoch, Abertawe, SA2 9EB</p>			
At Ddefnydd y Swyddfa Yn Unig			
Dyddiad Derbyniwyd y Cais:		Dyddiad Darparu'r Data:	
Nodiadau:			

Cais gan yr Heddlu am Wybodaeth Bersonol Coleg Gŵyr Abertawe

Defnyddir y ffurflen hon i wneud ceisiadau i ddatgelu data personol sydd yn cael ei gadw gan y Coleg, sy'n cynnwys ei systemau CCTV. Mae'r weithred o ddatgelu data gofynnol yn ôl y gyfraith ag unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag achosion cyfreithiol, o dan Ddeddf Diogelu data 2018, Atodlen 2 Eithriadau GDPR:

- a) atal a chanfod trosedd
- b) restio/erlyn troseddwr, neu
- c) asesu neu gasglu treth/doll neu unrhyw fater cysylltiedig

DYDDIAD	Amser Cychwynnol	Amser Gorffen	Lleoliad y Camera

DISGRIFIAD O'R DATA SYDD EI ANGEN:	

MANYLION Y PERSON SY'N GWNEUD Y CAIS

ENW	TEITL	RHIF COLER/BATHODYN

Cadarnhaf fy mod yn gwneud ymholiadau sy'n ymwneud ag:

- a) atal a chanfod trosedd
- b) restio/erlyn troseddwr, neu
- c) asesu neu gasglu treth/doll neu unrhyw fater cysylltiedig

Llofnod..... Dyddiad.....

Dychwelwch y ffurflen hon at Swyddog Diogelu Data, Clerc y Llywodraethwyr, Coleg Gŵyr Abertawe, Heol Tycoch, Abertawe, SA2 9EB

At Ddefnydd y Swyddfa Yn Unig

Dyddiad Derbyniwyd y Cais:	Dyddiad Darparu'r Data:
----------------------------------	-------------------------------

Nodiadau:

Cais am ddata personol a gedwir gan Goleg Gŵyr Abertawe – gweithrediadau cyfreithiol

Defnyddir y ffurflen hon i ddatgelu data personol a gedwir gan y Coleg sy'n ofynnol gan y gyfraith a chysylltiadau cyfreithiol, o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, Esemptiadau o'r GDPR, Atodlen 2, Paragraff 5:

- a) Yn angenrheidiol at ddiben/mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol (gan gynnwys achosion cyfreithiol arfaethedig)
- b) Yn berthnasol ar gyfer derbyn cyngor cyfreithiol
- c) Yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol

DISGRIFIAD O'R DATA SYDD EI ANGEN:

RHESWM DROS WNEUD CAIS (a), b) neu c) uchod

MANYLION Y PERSON SY'N GWNEUD CAIS

ENW	CYFEIRIAD	

Cadarnhaf fod y wybodaeth a ofynnaf amdano:

- a) Yn angenrheidiol at ddibenion/mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol (gan gynnwys achosion cyfreithiol arfaethedig) **i/n**
- b) Yn berthnasol ar gyfer derbyn cyngor cyfreithiol **i/n**
- c) Yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol **i/n**

Llofnod..... Dyddiad.....

Dychwelwch y ffurflen hon at Swyddog Diogelu Data, Clerc y Llywodraethwyr, Coleg Gŵyr Abertawe, Heol Tycoch, Abertawe, SA2 9EB

At Ddefnydd y Swyddfa Yn Unig

Dyddiad y Derbyniwyd y Cais: Dyddiad y Darparwyd y Data:

Nodiadau: